



# MANTELL

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 48  
Chwefror 2010

## Swyddfa Newydd Mantell Gwynedd

### CYNNWYS

O Mantell	2
Iechyd Gofal Cymdeithasol a Lles	3
Plant a Phobl Ifanc	4
Newyddion	5
Grantiau	6
Canolfan Gwirfoddoli	7
Digwyddiadau a Hyfforddiant	8

Mae Swyddfa Mantell Gwynedd yng Nghaernarfon wedi symud i 23 -25 Y Bont Bridd, Caernarfon, LL55 1AB. Mae'r swyddfa newydd mewn lle cyfleus, gyferbyn a'r orsaf bysiau a'r maes parcio aml-lawr yng nghanol Caernarfon. Cofiwch alw i'n gweld. Mae'r rhif ffôn ac e-bost yn aros run fath.



### Cronfa Ewch Amdani



sports council wales  
cyngor chwaraeon cymru

Wedi gwneud adduned i wella eich ffitrwydd yn y flwyddyn newydd? Awydd cymhwyso fel arweinydd chwaraeon yn eich cymuned?

Yr ateb yw 'Ewch Amdani'. Mae cronfa 'Ewch Amdani' yn parhau hyd Gorffennaf 2010 ac mae'r gronfa ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws Gwynedd sydd ddim â chyswllt uniongyrchol â chwaraeon; er mwyn annog gweithgarwch corfforol cymunedol ychwanegol ac o'r newydd neu i gymhwyso arweinyddion gwirfoddol i arwain sesiynau ac i hybu a gwella ffitrwydd a iechyd pobl yn eu cymunedau.

Am fwy o fanylion neu am becyn cais cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu [delyth@mantellgwynedd.com](mailto:delyth@mantellgwynedd.com)



Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Swyddfa Gofrestredig: 23-25 Y Bont Bridd, CAERNARFON, LL55 1AB. Ffôn: 01286 672626 • Ffacs: 01286 678430

Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. Ffôn: 01341 422575 • Ffacs: 01341 422147

E-bost: [ymholiadau@mantellgwynedd.com](mailto:yhmholiadau@mantellgwynedd.com) • Gwefan: [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru

Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

# Nodyn gan y Prif Swyddog

Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Mantell. Gobeithio y bydd hon yn flwyddyn lewyrchus ac iach i chwi a'ch mudiadau.

Pleser mawr yw cael 'sgwennu'r Pwt yma o'r swyddfa newydd yn Y Bont Bridd yng Nghaernarfon. Mae'n adeilad a chryn hanes iddo a llawer o bobl leol yng Nghaernarfon yn ei adnabod fel hen adeilad "Rochelles" neu "Harpers". Mae'r rhain yn swyddfeydd llawer mwy addas ac amgylchiadau llawer gwell i staff weithio ynddynt. Mae'r ffaith ein bod reit dros y ffordd i'r stesion fysis a maes parcio pwrpasol hefyd yn fonws ychwanegol.

Fel y gwelwch ar y dudalen lechyd yn y newyddlen hon, mae aelod newydd o staff wedi ymuno â ni ym Mantell cyn y 'Dolig, sef Llinos Alun. Mae Llinos wedi ei lleoli yn Swyddfa Dolgellau ac yn gweithio fel Cydlynnydd Gwirfoddoli ar ein prosiect iechyd. Pleser o'r mwyaf yw croesawu Llinos i'n plith a phleser mwy yw medru lleoli prosiectau ac adnoddau yn ein swyddfa yn Nolgellau. Mae mawr angen buddsoddi yn ardal

De Gwynedd ac mae Mantell yn ymhyfrydu mewn medru gwneud hynny gyda'r prosiect cyffrous yma.

Pryder mawr i ni ar hyn o bryd ym Mantell Gwynedd yw clywed fod Cronfa Refeniw Neuaddau Pentref yn y fantol yng Ngwynedd oherwydd arbedion. Mae hon wedi bod yn gronfa allweddol bwysig dros y blynyddoedd ac mae'r ffaith fod adnodd fel neuadd bentref mewn cymuned yn fodd i annog gweithgaredd cymunedol. Mae'r Gronfa hon wedi bod yn hanfodol i rai neuaddau i gadw drysau ar agor dros y blynyddoedd. Bydd Mantell Gwynedd yn gwneud ymholiadau dygn dros yr wythnosau nesaf i fynd i wraidd y mater er mwyn sicrhau, lle bo'n bosib, bod hyb cymunedol yn cael pob cyfle i aros ar agor gan mai dyma fydd calon cymuned, yn enwedig felly fel y gwelwn ysgolion yn cau.

Yn olaf, wrth i raglen arbedion Cyngor Gwynedd fynd rhagddi bydd Mantell Gwynedd yn cadw golwg barcud ar yr effaith fydd hyn yn ei gael ar y Trydydd Sector yng Ngwynedd. Rydym yn



barod wedi gweithio yn galed gyda rhai mudiadau oedd yn wynebu toriadau yn eu Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Rhaid sicrhau fod y drafodaeth yn gytbwys a bod gwybodaeth deg yn cael ei rhoi gerbron y rhai sydd yn gorfod gwneud y penderfyniadau anodd i gymeradwyo toriadau. Nid yw'r Trydydd Sector yn disgwyl cael ein gwarchod rhag unrhyw doriadau ond rydym, yn sicr iawn, yn disgwyl bod yn rhan o brosesau agored a thryloyw fydd yn arwain at unrhyw argymhellion am doriadau. Bydd Mantell Gwynedd yn parhau i fod yn lais cryf i'r Trydydd Sector yn y broses anodd yma.

Tan Tro Nesa'

**Bethan**

## STAFF MANTELL GWYNEDD

### CAERNARFON

**Prif Swyddog:** Bethan Russell Williams

#### Tim Gwasanaethau

**Uwch Swyddog Gwasanaethau Cefnogol:** Meinir Jones.

**Hwylusydd Iechyd a Gofal Cym.:** Sioned Llwyd Larsen.

**Swyddog Grantiau a Chefnogaeth:** Delyth Vaughan.

**Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc:** Ann Vaughan Jones.

**Cydlynnydd Trydydd Sector:** Medwyn Williams

#### Tim Cyllid a Gweinyddol

**Dirprwy Brif Swyddog a Phennaeth Tim Cyllid a**

**Gweinyddu:** Ceren Williams.

**Swyddog Gweinyddol:** Bronwen Rowlands.

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:** Tracy Lynne Rotheram

#### Tim Canolfan Wirfoddoli

**Cydlynnydd Gwirfoddoli:** Rhianon Jones.

**Swyddog Gwirfoddoli:** Iola Till.

**Swyddog Gwirfoddoli Ieuenctid:** Mirain Roberts.

**Swyddog Porth Ymgysylltu:** Carys Williams

### DOLGELLAU

#### Tim Cyllid a Gweinyddol

**Cynorthwy-ydd Gweinyddol:** Beryl Norgrove

#### Tim Canolfan Wirfoddoli.

**Swyddog Gwirfoddoli:** Ann Angharad Fleming

#### Tim Gwasanaethau.

**Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Iechyd:** Llinos Alun

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **16 Ebrill 2010**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Meinir Jones yn Swyddfa Caernarfon. Ebst: [meinir@mantellgwynedd.com](mailto:meinir@mantellgwynedd.com) Ffôn: **01286 672626**

## CYNLLUN GWARCHODWYR IECHYD GWIRFODDOL YN Y GYMUNED

Mae'r Cynllun Gwarchodwyr Iechyd Gwirfoddol yn rhan o Safle Arddangos Cyflyrau Cronig Gogledd Cymru. Prif nod y prosiect yw recriwtio gwirfoddolwyr i gyfeillio pobl sydd â chyflwr iechyd tymor hir. Gall rhai o'r bobl hyn fod angen cefnogaeth ychwanegol i'r hyn mae gwasanaethau statudol yn gallu ei gynnig. Gobeithiwn hyfforddi tîm o wirfoddolwyr mewn ardaloedd penodol yn ne Gwynedd a fydd yn gallu cynnig cefnogaeth i'r unigolion bregus hyn. Gallai hynny fod trwy ymweld â hwy yn eu cartrefi bob wythnos, mynd am dro, mynd gyda hwy i glwb neu gymdeithas, helpu gyda siopa neu jyst bod yn glust i wrando dros y ffôn - hynny yw, y math o gefnogaeth gymdeithasol lefel isel y buasai cymydog da yn ei gynnig. Bydd y gwirfoddolwyr hefyd yn gallu eu cyfeirio at fudiadau eraill a allai helpu gyda'u sefyllfa, a'r gobaith yw y bydd hyn oll yn helpu i wella ansawdd bywyd yr unigolion hyn o fewn ein cymunedau gan osgoi dirywiad yn eu cyflwr iechyd. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwirfoddoli neu os ydych yn gwybod am rywun fyddai'n hoffi defnyddio'r gwasanaeth, cysylltwch â Llinos Alun yn swyddfa Mantell Gwynedd yn Nolgellau ar 01341 422575 neu [linos.alun@mantellgwynedd.com](mailto:linos.alun@mantellgwynedd.com)

## LLINOS ALUN - CYDLINYDD Y CYNLLUN NEWYDD

Ymunodd Llinos â Mantell ddiwedd Tachwedd 2009 fel Cydlynnydd Gwirfoddolwyr Iechyd. Un o ardal Stiniog ydyw, ac mae ganddi dipyn o brofiad o weithio gyda gwirfoddolwyr ar wahanol

brosiectau. Bu'n gweithio gyda Deudraeth Cyf ar wefannau cymunedol ac yna am gyfnod gyda Chymorth i Ferched De Gwynedd fel cydlynnydd gwirfoddoli. Yn fwy diweddar, bu'n gweithio i Gymdeithas Tai Hafan fel Swyddog Cyswllt Ysgolion, yn ymweld ag ysgolion uwchradd i gyflwyno'r prosiect Spectrwm. Mae hi'n edrych ymlaen at ddatblygu'r Cynllun Gwarchodwyr Iechyd Gwirfoddol yn y Gymuned a chael cyfarfod y gwirfoddolwyr newydd ynghyd â'r rhai fydd yn cael eu cyfeillio.



Llinos Alun

## CREU IECHYD – CELFYDDYD MEWN IECHYD A LLES

Mae artistiaid lleol sydd â diddordeb mewn defnyddio eu gallu creadigol i gynorthwyo gyda gwella iechyd a lles pobl yn cael eu gwahodd i ymuno â chynllun blaengar yng Ngwynedd a Môn.

Ar hyn o bryd, mae 'Creu Iechyd', mewn partneriaeth gyda Uned Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd, yn ceisio creu cronfa ddata o fanylion artistiaid sydd â phrofiad o weithio ym maes Celfyddyd mewn Iechyd a Lles – o unrhyw faes creadigol megis dawns, cerdd, celf drama a llenyddiaeth fynegi diddordeb.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Gwawr Wyn Roberts trwy e-bostio: [GwawrR@gwynedd.gov.uk](mailto:GwawrR@gwynedd.gov.uk) neu ar y ffôn: 01286 679721.

## Ymgynghoriad ynghylch Gweithio i Wella – ffordd well o ymdrin â phryderon am y gwasanaethau iechyd

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn pobl ar sut mae sefydliadau iechyd yn ymdrin â phryderon pobl am y gwasanaeth iechyd.

Am gopi o'r Ddogfen a ffurflen ymateb ewch ar wefan y cynulliad sef [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk) - ymgynghoriadau - iechyd a gofal cymdeithasol neu cysylltwch â Sioned ym Mantell Gwynedd ar 01286 672626.

Dylid anfon eich sylwadau i'r cyfeiriad e-bost isod cyn 02/04/2010 [puttingthingsrightconsultation@wales.gsi.gov.uk](mailto:puttingthingsrightconsultation@wales.gsi.gov.uk) neu yn y Post at: Ann-Marie Carpanini-Lock

Y Tîm Gwella Diogelwch Cleifion, Yr Is-adran Gwella Ansawdd, Safonau a Diogelwch, Llywodraeth Cynulliad Cymru, RHADBOST NAT 8910, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

## CYFEIRLYFR IECHYD

Cofiwch bod Medwyn yn dal i gasglu gwybodaeth ar gyfer y Cyfeirlyfr Iechyd, os nad ydych wedi cysylltu ag o eto, ffoniwch 'rwan:

**01286 672626**

E-bost:

[medwyn@mantellgwynedd.com](mailto:medwyn@mantellgwynedd.com)

# Cymunedau Diogel NSPCC

Pecyn diogelu plant ar gyfer grwpiau a mudiadau



Pecyn yw hwn i'ch helpu i gael pethau yn eu lle i gadw plant yn ddiogel yn eich mudiad.

Mae amryw wedi cyfrannu at ysgrifennu'r canllawiau, a bydd yn ddefnyddiol iawn i chi fel grwpiau cymunedol; clybiau ar ôl ysgol neu glybiau ieuencid sy'n darparu gweithgareddau mewn meysydd megis y celfyddydau; drama; cerddoriaeth; hobiau, addysg grefyddol a gofal blynyddoedd cynnar. Mae tair adran i'r adnodd.

Adran A : pam bod diogelu yn bwysig,

Adran B : y camau gweithredu

Adran C : rhestr o adnoddau a chyhoeddiadau gan gynnwys datganiadau polisi ayyb enghreifftiol.

Mae'n darparu cyngor ar sut i redeg mudiad diogel. Mae hefyd yn cynnwys y polisi a'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i'ch mudiad ei gael, ynghyd ac awgrymiadau ymarferol ar sut i weithredu hyn.

Mae'r prosiect eisoes wedi ei dreialu yn Sir Ddinbych a bu'n llwyddiannus iawn. Gan mai 10 copi sydd gan Mantell Gwynedd ar gyfer y sector gyfan byddwn yn cynnig y pecynnau hyn i fudiadau ar sail benthyciad am gyfnod penodol. Os hoffech wneud cais i fenthycu pecyn, cysylltwch ag Ann Vaughan Jones yng Nghaernarfon drwy e-bost: [annvaughan@mantellgwynedd.com](mailto:annvaughan@mantellgwynedd.com) neu ffoniwch 01286 672626 os gwelwch yn dda.

Mae rhagor o wybodaeth am y prosiect ar gael ar wefan NSPCC: [www.nspcc.org.uk/toolkit](http://www.nspcc.org.uk/toolkit)

## HOLIADUR GWIRFODDOLI POBL IFANC GWYNEDD

Ar ddiwedd 2009 fe yrrwyd Holiadur Gwirfoddoli Pobl Ifanc Gwynedd i nifer o glybiau, ysgolion a mudiadau ar draws Wunedd i geisio targedu pobl ifanc i roi eu barn ar wirfoddoli.

Fel abwyd i lenwi a dychwelyd yr holiadur roedd cyfle i chi gael rhoi eich enw mewn het; a chael y cyfle i ennill £50.

Enillydd lwcus yr £50 oedd Non Roberts o Drefor. Fe gafodd Mirain Roberts, ein Swyddog Gwirfoddoli Ymysg Ieuencid y cyfle i fynd draw i gyflwyno'r wobwr i Non yng Nghlwb Chware Teg yn Trefor.

Daeth 509 o holiaduron i law. gyda 129 yn nodi eu bod yn

## Cyflwyno Tystysgrifau dan gynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm

LLONGYFARCHIADAU!!!! I ddwy ferch ifanc sydd wedi bod yn llwyddiannus ar y cynllun Gwirfoddolwr y Mileniwm.



Mari Fflur ar gyrraedd ei 50, 100 a 200 awr o wirfoddoli. Yn gwirfoddoli gyda – Cartref Henoed Bryn Llifton, Bangor; Ysgol Dyffryn Nantlle; Galeri Caernarfon a Siop Elusen British Heart Foundation yng Nghaernarfon.



Lowri Pritchard ar gyrraedd ei 50 a 100 awr o wirfoddoli. Yn rhoi ei amser i WRVS yn Ysbyty Gwynedd; Ambiwllans St Johns; Hopis Dydd - Hafan Menai ac yn Ysgol Tryfan.

awyddus i dderbyn mwy o wybodaeth am wirfoddoli. Roedd cwestiynau yn yr holiadur am y rhesymau a'r rhwystrau i bobl ifanc wirfoddoli. Fe fydd y wybodaeth yma yn ddefnyddiol iawn i'r Swyddog Gwirfoddoli Ymysg Ieuencid i gael ceisio goresgyn rhwystrau pobl ifanc i fynd ati i wirfoddoli.



Non Roberts yr enillydd

## Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cymunedau yn Gyntaf

Ers Ionawr 2009 mae WCVA wedi bod yn dosbarthu Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi ar gyfer holl ardaloedd Gymunedau yn Gyntaf, Partneriaethau a staff ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi WCVA yn darparu cefnogaeth ymatebol hyblyg i'r Partneriaethau mewn meysydd fel -



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government



- Cynllunio prosiectau ac ariannu
- Gweithio gyda darparwyr gwasanaeth
- Cyngor cyfreithiol
- Cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau
- Datrys gwrthdaro
- Rhedeg pwyllgorau yn effeithiol
- Gwneud defnydd o'r Gronfa Ganlyniadau

Yn barod mae sawl Partneriaeth wedi derbyn cefnogaeth ar faterion megis: Cyfuno dwy bartneriaeth; Sesiynau Atgoffa, Cyngor cyfreithiol yn berthnasol i weithio gyda phlant a phobl ifanc; Datblygu arferion cymunedol mewn ardaloedd newydd i'r rhaglen; Arwain ymgynghoriad cymunedol. Medrwyd gysylltu'n ddwyieithog gyda Russell neu Megan o'r Tîm Cyngori drwy ffonio Llinell Gymorth Cymunedau yn Gyntaf ar **0800 587 8898** neu ar e-bost at [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

## ELUSENNAU - DANGOS BUDD I'R CYHOEDD

Mae'n rhaid i bob elusen baratoi adroddiad ar ei budd cyhoeddus bob blwyddyn. Mae gwahanol ofynion adrodd i elusennau llai ond bydd pob elusen yn rhoi adroddiad ysgrifenedig fel rhan o'u hadroddiad blynyddol i'r Comisiwn. Mae enghreifftiau ffugiol o adroddiadau blynyddol, i ddangos sut i adrodd ar fudd cyhoeddus ar gael i'ch cynorthwyo ond mae hwn yn gyfle mewn gwirionedd i chi adrodd ar y gwaith unigryw sy'n digwydd yn eich elusen chi. Mae llawer mwy o wybodaeth am fudd cyhoeddus ar gael ar wefan y Comisiwn Elusennau: [www.charitycommission.gov.uk](http://www.charitycommission.gov.uk)

## Gwefan newydd i helpu recriwtio staff i'r sector

**recriwt3** yw'r wefan swyddi newydd ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru.

Fel'i datblygir ar y cyd gan WCVA a The Big Issue Cymru, gan ddisodli gwasanaeth Goodmoves. P'un ai ydych yn rhywun sy'n chwilio am waith neu'n gyflogwr, byddwch yn barod i glicio ar [www.recriwt3.org.uk](http://www.recriwt3.org.uk)

## ATGOFFWCH EICH GRŴP AM GYMORTH RHODD

Estynnir gwahoddiad i fudiadau'r trydydd sector yng Nghymru, nad ydynt eisoes wedi cofrestru ar gyfer Cymorth Rhodd, i fynd i Gymorthfeydd Cofrestru Cymorth Rhodd i gael help i ddechrau arni. Mae Cymorth Rhodd yn galluogi elusennau a Chlybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol i adhawlio'r dreth a delir ar roddion gan unigolion - am bob punt a roddir i elusen, gellir hawlio 28c yn ychwanegol gan Gyllid a Thollau EM. Mae cymorth ar gael – Eileen Kinsman, Giving Wales WCVA ar 0800 2888 329

## Lansio trydydd arolwg dirwasgiad WCVA

Mae WCVA wedi cynnal dau arolwg yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn monitro effeithiau'r dirwasgiad ar fudiadau yng Nghymru. Oherwydd bod disgwyl toriadau mewn gwariant cyhoeddus yn 2010, mae'n bwysig cadw llygad barud ar sut mae hyn yn effeithio ar fudiadau'r trydydd sector, rhai bach a mawr. I lenwi'r holiadur ar-lein, ewch i'r dudalen Ymchwil ar wefan WCVA - [www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)

## ARIAN AR GAEL I DDANGOSY FFILM 'OES Y DWL'

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cynnig cyfle i fudiadau cymunedol a mudiadau'r trydydd sector ddangos y ffilm – Oes y Dwl. Datblygwyd y ffilm hon gan grŵp bach o wneuthurwyr ffilm sy'n credu y dylai pawb glywed yr hyn a fydd yn digwydd i'n hinsawdd os na wnawn ni ymateb ar fyrder i'r argyfwng newid yn yr hinsawdd. Rydym yn cynnig £250 i bob grŵp er mwyn iddynt drefnu dangos y ffilm. Mae rhagor o wybodaeth am y ffilm ar gael yn [www.ageofstupid.com](http://www.ageofstupid.com). Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn, yna anfonwch am becyn ymgeisio sydd ar gael drwy ffonio Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329 neu drwy anfon e-bost at [policy@wcva.org.uk](mailto:policy@wcva.org.uk). **Rhaid cynnal pob digwyddiad cyn diwedd mis Mawrth 2010.**

I lawrlwytho copi o newyddion a gwbyodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:  
**Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)** ewch i'r adran **Newyddion** ar wefan  
Mantell Gwynedd - [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)

# CIST GWYNEDD

## Cronfa Datblygu Giwrffoddol

Mae Cyngor Gwynedd yn gweinyddu grantiau i grwpiau cymunedol a giwrffoddol Gwynedd. Y bwriad yw galluogi'r trydydd sector i chwarae rôl gyflawn yng nghymunedau Gwynedd drwy adlewyrchu un neu ragor o'r amcanion canlynol:

- (i) gwella cyfleoedd cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol a hamdden;
- (ii) gwella rhagolygon cyflogaeth, menter a medrau'r bobl leol, yn enwedig pobl ifanc a phobl sydd o dan anfantais, a hyrwyddo cyfleoedd cyfartal;
- (iii) diogelu a gwella'r amgylchedd a'r seilwaith lleol, gwneud defnydd effeithiol o dir ac adeiladau;
- (iv) gwella diogelwch cymunedol ac atal troseddau a lleihau ofn troseddau;
- (v) hybu, gwarchod, cyfoethogi a gwella'r amgylchedd/leihau llygredd;
- (vi) hyrwyddo a chefnogi gweithredu giwrffoddol a giwrffoddoli a chydweithio er mwyn cyrraedd targedau;
- (vii) ennyn cyd-weithio'n lleol a chodi balchder a hyder lleol;
- (viii) cyfrannu tuag at leihau amddifadedd yn yr ardaloedd difreintiedig.

Disgwylir i geisiadau fod yn seiliedig ar gynlluniau neu wasanaethau newydd sydd yn cyflawni amcanion pendant ac amlwg. Ni fydd grant yn cael ei roi i gynnal

gweithgareddau / gwasanaethau arferol neu barhaol. Mae modd gwneud cais am arian referniw o'r gronfa hon. Mae Cronfa Datblygu Giwrffoddol yn grant sy'n adlewyrchu amcanion a thargedau Strategaeth Gymunedol Gwynedd. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31ain Mawrth, 2010 a 30ain Mehefin, 2010. Os bydd arian yn weddill yn y gronfa, bydd galw pellach am geisiadau maes o law. Am becyn cais neu ragor o wybodaeth cysylltwch gyda Swyddog Adfywio Bro neu Cist Gwynedd ar **01286 679153** neu e-bostio [heatherwilliams@gwynedd.gov.uk](mailto:heatherwilliams@gwynedd.gov.uk)

### Cronfa newydd 'Newid yn yr Hinsawdd' CGGC

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bob un ohonom, ac mae mwy a mwy o grwpiau'r trydydd sector yn brwydro yn ei erbyn. Gall Cronfa Newid yn yr Hinsawdd gynnig grantiau, sy'n amrywio o £200 i £2000, i grwpiau'r trydydd sector sydd eto i weithredu ynghylch newid yn yr hinsawdd. Gallwch ddefnyddio'r arian hwn i godi ymwybyddiaeth o gynhesu byd-eang, i archwilio effaith newid yn yr hinsawdd ar eich gweithgareddau, i sefydlu cyfleusterau ailgylchu, i feithrin cyswllt â grwpiau sydd eisoes â chylch gwaith amgylcheddol... chi biau'r dewis. Am fwy o wybodaeth ffoniwch desg gymorth CGGC ar 0800 2888 329 neu anfonwch e-bost at [climatechange.fund@environment-wales.org](mailto:climatechange.fund@environment-wales.org).

## Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington

Mae Ymddiriedolaeth Austin a Hope Pilkington yn dyfarnu grantiau i fudiadau elusennol yn y Deyrnas Unedig a thramor. Yn 2010, mae grantiau rhwng £1,000 a £10,000 ar gael i brosiectau yn y meysydd canlynol: plant, ieuenctid, yr henoed a phrosiectau ymchwil meddygol sy'n ymdrin â'r boblogaeth hŷn. Croesewir ceisiadau gan fudiadau elusennol yn y DU. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw Mehefin 1af a Thachwedd 1af bob blwyddyn. Am fwy o fanylion ewch i [www.austin-hope-pilkington.org.uk](http://www.austin-hope-pilkington.org.uk)

### Cronfa 'Galluogi Gwynedd'

Ychydig o arian sydd ar ôl yn y gronfa erbyn hyn felly 'cyntaf i'r felin...'. Gall grwpiau giwrffoddol a chymunedol ar draws Gwynedd barhau i ymgeisio am arian cyfalaf ar gyfer datblygu, uwchraddio neu adnewyddu adeiladau/asedau cymunedol hyd at fwyafswm o £10,000. Y dyddiad cau nesaf yw 31ain, Mawrth, 2010. Mae'n rhaid i bob cais gyrraedd trwy law neu yn y post CYN 5.00pm. I drafod unrhyw ymholiad neu am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Vaughan ar 01286 672 626 neu e-bostiwch [delyth@mantellgwynedd.com](mailto:delyth@mantellgwynedd.com)

### Mae Plant mewn Angen

wedi lansio rhaglen Grantiau bach a'r nod yw denu



ceisiadau gan fudiadau nad ydynt wedi gwneud cais i Blant mewn Angen o'r blaen. Bydd grantiau hyd at £10,000 y flwyddyn am hyd at dair blynedd ar gael i fudiadau ar draws y Deyrnas Unedig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Caiff unrhyw fudiad di-elw sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc dan 18oed ymgeisio. Y dyddiadau cau nesaf fydd 15 Ebrill, 15 Gorffennaf a 15 Hydref 2010. Am fwy o fanylion ewch i [www.bbc.co.uk/pudsey/grants/](http://www.bbc.co.uk/pudsey/grants/)  
**Mae Cymorthfa Plant Mewn Angen ar 29 Ebrill i'ch cynorthwyo i ddatblygu prosiect – gweler tudalen 8 hyfforddiant.**

## RHAGLEN GWEITHGAREDDAU A CHYFLEUSTERAU CYMUNEDOL

Rhaglen grant cyfalaf yw hon sy'n targedu grwpiau cymunedol a giwrffoddol a chwmnïau di-elw preifat yng Nghymru. Y nod yw llenwi bylchau cyllid ar ôl defnyddio pob ffynhonnell arall o gymorth. Bydd y grantiau yn sicrhau y darperir cyfleusterau mewn cymunedau a gweithgareddau sy'n helpu i adfywio'r ardal leol. Gellir dyfarnu hyd at £100,000 i bob prosiect mewn unrhyw flwyddyn ariannol neu gyfanswm o £300,000 dros gyfnod o dair blynedd.  
**Y dyddiad cau nesaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw 9fed Ebrill 2010.**

Mae mwy o fanylion ar gael ar:

<http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/grants/cfap/?skip=1&lang=cy>

## 'Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2010' - galw am enwebiadau i wobrwyo gwirfoddolwyr

A ydych chi'n adnabod person arbennig sy'n eich ysbrydoli chi gyda'r hyn y maent yn ei wneud fel gwirfoddolwr, neu efallai eich bod yn gwybod am grŵp neu fudiad sy'n enghraifft wych o sut y gall gwirfoddolwyr wneud gwahaniaeth cadarnhaol? Os felly - dyma eich cyfle chi i'w henwebu ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru 2010! Nid yn unig y byddwch yn rhoi ychydig o gydnabyddiaeth iddynt am eu gwaith caled, mae'n gyfle hefyd i godi ymwybyddiaeth o'r mudiad / grŵp sydd yn elwa o'u gwasanaeth.

Mae dewis o bum categori sef:

- person ifanc dan 25,
- oedolyn
- gwirfoddolwr gwyrdd
- ymddiriedolwr
- grŵp gwirfoddol (sy'n cynnwys o leiaf 2 berson)

Mae'r noddwyr newydd ar gyfer 2010 sef CCLA Investment Management Cyf. Mae CCLA, yn bodoli i helpu

elusennau i wneud y gorau o'u buddsoddiadau. Gweler [www.ccla.co.uk](http://www.ccla.co.uk) am ragor o wybodaeth.

Y llynedd, derbyniwyd 215 o enwebiadau drwy Gymru, a naw ohonynt o Wynedd. Ceir hyd at dri enillydd cenedlaethol ymhob categori. Da yw nodi fod un o'r enillwyr cenedlaethol y llynedd yn dod o Wynedd sef Mrs Bettina Harden, o Nefyn, sydd yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Gerddi'r Agoriad. Daeth i'r brig yn genedlaethol yng nghategori ymddiriedolwyr. Bydd pawb a enwebir o Wynedd yn cael gwahoddiad i ddod i'r 'Te Dathlu a Diolch' a gynhelir yn ystod Wythnos Gwirfoddolwyr 2010 ym mis Mehefin pan gant eu cyflwyno gyda'u tystysgrifau clod. Braff fyddai cael buddugwyr o Wynedd eto eleni. Felly .....meddylwch am ychydig, ond peidiwch ag oedi gormod oherwydd rhaid i'r enwebiadau gyrraedd CGGC, Caerdydd **erbyn 9fed Ebrill 2010**.

Am ragor o fanylion a/neu ffurflenni enwebu cysylltwch â Chanolfan Gwirfoddoli Gwynedd **01286 672626**, **rhianon@mantellgwynedd.com** neu **www.cggc.org.uk**

## TÎM O WIRFODDOLWYR YN ENNILL GWOBR GENEDLAETHOL

Llongyfarchiadau i dîm o wirfoddolwyr sydd wedi eu lleoli yng Nghanolfan Cyfiawnder Troseddol yng Nghaernarfon ar ennill gwobr genedlaethol. Mae gwirfoddolwyr Gwasanaeth Tystion yn rhoi cymorth a chefnogaeth i dystion a dioddefwyr cyn eu bod yn wynebu'r profiad anodd o roi tystiolaeth mewn llys. Diwedd 2009, daethant yn fuddugol mewn cynllun gwobrau cenedlaethol sy'n cydnabod rhagoriaeth yn y system Cyfiawnder Troseddol sef 'Gwobrau Gwirfoddoli a Chyfiawnder Cymunedol 2009'.



Ionwen Ewing, Rheolwraig Gwasanaeth Tystion gyda 2 o wirfoddolwyr y mudiad – Robert ac Angela.

## EILIAD GYDA MUDIAD

Yn ystod 2010, mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd am roi cipolwg ar fudiadau sy'n cynnwys gwirfoddolwyr yn eu gweithgareddau. Gwasanaeth Tystion sydd yn cael sylw y rhifyn yma

### ENW'R MUDIAD:

**Beth yw eich nod?**

**Nodwch rai tasgau mae gwirfoddolwyr yn eu gwneud i gynorthwyo'r mudiad**

**Tua faint o wirfoddolwyr sydd gennych ar hyn o bryd?**

**Sut ydych yn denu gwirfoddolwyr?**

**Beth yw'r manteision i wirfoddolwyr?**

**Unrhyw uchafbwynt?**

### GWASANAETH TYSTION

Rhoi chwarae teg i ddiodefwyr a thystion cyn mynd i lys, yn ystod achos, ac ar ôl bod mewn llys.

- Egluro i dystion beth sy'n digwydd mewn achos llys.
- Cefnogi tystion a diodefwyr
- Cynnig cefnogaeth i deuluoedd yn dilyn achosion llys

21 (drwy Wynedd a Môn).

Drwy Mantell Gwynedd, a hefyd cymeradwyaeth gan wirfoddolwyr sydd eisoes gyda'r mudiad.

Mae'r gwaith a wnawn yn gallu bod yn ddwys a difrifol, ond mae cael bod yn aelod o dîm agos yn rhoi plaser mawr i wirfoddolwyr.

Ennill gwobr 'Gwirfoddoli a Chyfiawnder Cymunedol 2009' mis Tachwedd diwethaf (gweler uchod).

## 'Cyrsiau i Gymunedau' (CCC)

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), cyfagos

Dyddiad	Lleoliad	Cyswllt CGS	Hyd
Ffurfioli eich mudiad			
25 Chwefror	Bae Colwyn	CVSC	1/2 diwrnod
Recriwtio a datblygu ymddiriedolwyr			
25 Chwefror	Wrecsam	AVOW	1 diwrnod
Cyllidebu			
1 Mawrth	Bae Colwyn	CVSC	1/2 diwrnod
Creu deunyddiau cyhoeddusrwydd a marchnata			
19 Mawrth	Llangefni	Medrwn Môn	1/2 diwrnod
Ysgrifennu datganiadau effeithiol i'r wasg			
9 Mawrth	Llangefni	Medrwn Môn	1/2 diwrnod

I wneud ymholiadau cyffredinol ynghylch Rhaglen Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, cysylltwch â Lein Gymorth CGGC (WCVA) ar **0800 2888329** neu [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

## GWEITHDY CYMUNEDOL

### Byw yn Gynladwy – Gwneud y pethau iawn

Gweithdy gan y Canolfan Addysg Byd a Synnwyr Busnes, Prifysgol Bangor, mewn partneriaeth a Gwynedd Gynladwy a Moelyci

<b>Dydd Iau, 4 Mawrth</b>	<b>Dydd Gwener 12 Mawrth</b>
<b>Porthmadog</b>	<b>Tregarth</b>
<b>12.30 - 5pm</b>	<b>12.30 - 5pm</b>
<b>Canolfan Porthmadog</b>	<b>Canolfan Tregarth</b>

Rhad ac am ddim. Edrych ar rhai o'r dylanwadau lleol y byd eang ar ein bywydau. Lluniaeth ysgafn ar gael ar y dechrau. Cysylltwch â Viv Ellis yn y Ganolfan Addysg Byd, 01248 383728 neu e-bost: [eds80c@bangor.ac.uk](mailto:eds80c@bangor.ac.uk)  
Cyllidwyd â grant o Gronfa Ymwybyddiaeth Datblygu yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.

## A YDYCH WEDI YMWELD Â'R GANOLFAN RHEOLAETH, YSGOL BUSNES BANGOR?

Mae wedi'i lleoli ar gampws Prifysgol Bangor, gan edrych i lawr ar harddwch Glannau Menai, ac yn daflid carreg yn unig oddi ar Ganol Dinas Bangor. Mae'r cyfleuster wedi ennill ei blwyf fel canolfan hyfforddi o'r radd flaenaf ym maes Datblygu Rheolwyr, ac yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau Rheolaeth ar draws yr holl ddisgyblaethau. Am fwy o fanylion, ewch i [www.themanagementcentre.co.uk](http://www.themanagementcentre.co.uk)

## Hyfforddiant yng Ngwynedd

### Cwrs Amddiffyn Plant

Lleoliad: Canolfan Hamdden, Caernarfon  
**24/25 Chwefror 2010**  
**6.00 - 9.00yh**

Cwrs ar gyfer pobl sy'n gweithio efo plant, mewn clybiau ac ati. Tystysgrif Amddiffyn plant Sylfaenol  
Am ddim i rai sy'n gweithio/gwirfoddoli gyda phlant Gwynedd

### Gweithdy Cydraddoldeb ac Iaith

Lleoliad: Hen Eglwys Y Santes Fair, Eglwys Tremadog  
**9fed Mawrth 2010**  
**9.30yb - 4.00yp**

Bydd cyflwyniad ar sut i gynnwys cydraddoldeb o fewn gweithgaredd eich mudiad ynghyd â gweithdy fydd yn eich galluogi i greu dau bolisi pwysig i'ch mudiad sef polisiau Cydraddoldeb ac Iaith.

### Gwybodaeth am yr Awdurdod Diogelu Annibynol

Lleoliad: Hen Eglwys y Santes Fair Tremadog  
**16 Mawrth 2010. 9.30 – 12.30**

Cost £45.00 (Am ddim i'r sector wirfoddol)

Bydd y sesiwn hon yn rhoi gwybodaeth am y Cynllun Archwilio a Gwahardd. Bydd gofynion yr Awdurdod Diogelu Annibynol yn effeithio ar bob mudiad sy'n gweithio efo Plant ac Oedolion Bregus a bydd y sesiwn hon yn egluro beth fydd yn digwydd a beth fydd angen i chi wneud.

### Tendro

Lleoliad: Porthmadog  
**16eg Ebrill 2010**  
**9.30yb - 4.00yp**

Gweithdy ymarferol sy'n mynd a chi trwy'r camau angenrheidiol ar gyfer gallu cystadlu am gytundebau.

## 'Cymorthfa Ariannu'

Yn Swyddfa Mantell Gwynedd, Caernarfon  
**Dydd Iau, Ebrill 29, 2010.**



Mae diwrnod o gymorthfeydd wedi'i threfnu ar y cyd â Phlant Mewn Angen y BBC. Bydd cyfle i grwpiau gwirfoddol a chymunedol sy'n gweithio efo Plant a Phobl Ifanc i gael gwybodaeth a chymorth i wneud cais am arian o Gronfa Plant Mewn Angen y BBC. Bydd cyfle i chi wneud cais i gael slot hanner awr i drafod yn uniongyrchol efo Swyddog Grantiau'r rhaglen Andrea Powell. I wneud cais gofynnir i grwpiau ysgrifennu dim mwy na 2 ochr tudalen A4 yn amlinellu eu cynllun ymlaen llaw a bydd lle i'r 10 cynllun mwyaf addawol i gael dod i drafod ymhellach. Anfonwch y cais i mewn, gorau oll, ar e-bost at [annvaughan@mantellgwynedd.com](mailto:annvaughan@mantellgwynedd.com) neu anfon trwy'r post at **Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1AB cyn 19 Ebrill 2010**

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Meinir Jones, **Mantell Gwynedd, 23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon LL55 1AB** neu [meinir@mantellgwynedd.com](mailto:meinir@mantellgwynedd.com)